

Datganiad o Egwyddorion

Deddf Gamblo 2005

2016 – 2019

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
1.1	CEFNDIR.....	1
1.2	DAEARYDDIAETH CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY.....	2
1.3	Y BROSES YMGYNGHORI.....	2
2.	Cwmpas a Graddau.....	3
3.	Amcanion Trwyddedu.....	5
3.1	AMCAN 1: ATAL GAMBLO RHAG BOD YN FFYNHONNELL TROSEDD AC ANHREFN	5
3.2	AMCAN 2: SICRHAU BOD GAMBLO’N CAEL EI GYNNAL YN DEG AC YN AGORED	6
3.3	AMCAN 3: DIOGELU PLANT A PHOBL DDIAMDDIFFYN ERAILL	6
4.	Deddfwriaeth a Pholisïau.....	7
4.1	DEDDFWRIAETH.....	7
4.2	CYNLLUNIO A RHEOLI ADEILADU.....	7
5.	Dirprwyo, Pwyllgor Trwyddedu a Gwneud Penderfyniadau	9
5.1	DIRPRWYO.....	9
5.2	PWYLLGOR TRWYDDEDU	9
5.3	GWNEUD PENDERFYNIADAU.....	11
6.	Egwyddorion Cyffredinol.....	12
6.1	AWDURDOD CYMWYS I DDIOGELU PLANT RHAG NIWED.....	12
6.2	PARTÏON CYFRANNOG	13
6.3	CYFNEWID GWYBODAETH.....	13
6.4	ARCHWILIADAU AC ACHOSION TROSEDDOL.....	14
7.	Y Broses Drwyddedu	16
7.1	CEISIADAU	16
7.2	CYFRYNGDOD.....	17
7.3	AMODAU	18
7.4	ADOLYGIADAU.....	18
8.	Safonau Lleol.....	20
8.1	TRWYDDEDAU SAFLE	20
8.2	RHYBUDDION	23
8.3	HAWLENNI.....	24

8.4	COFRESTRYADAU.....	26
8.5	ASESIADAU RISG LLEOL.....	27
9.	Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig	28
10.	Gwybodaeth Bellach.....	29
10.1	PEIRIANNAU HAPCHWARAE	29
10.2	Y GOFRESTR DRWYDDEDU.....	30
10.3	CRONFA DDATA O GOFNODION SAFLEOEDD	30
	Atodiad A: Proffil Ardal Leol o Gonwy	31
	Atodiad C: Dirprwyo Gwneud Penderfyniadau	45
	Atodiad D: Crynodeb Peiriannau Hapchwaræ.....	47

1. Cyflwyniad

1.1 CEFNDIR

- 1.1.1 Dan ddarpariaethau Deddf Gamblo 2005, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r **Awdurdod Trwyddedu** (a chyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "yr awdurdod trwyddedu") sy'n gyfrifol am roi Trwyddedau Safle, Rhybuddion, Hawlenni a Chofrestriadau gamblo yn sir Conwy.
- 1.1.2 Mae Deddf Gamblo 2003 ("y Ddeddf") yn gofyn i awdurdod trwyddedu baratoi a chyhoeddi datganiad polisi trwyddedu ("y polisi") bob tair blynedd o leiaf. Gwneir y polisi hwn dan Adran 349 y Ddeddf ac yn unol â'r 'Canllawiau i Awdurdodau Lleol' a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo dan Adran 25 y Ddeddf ("y Canllawiau").
- 1.1.3 Mae'r awdurdod trwyddedu'n rhwymedig i'r Ddeddf ac unrhyw reoliadau a wneir dan y Ddeddf. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried y Canllawiau ac Amodau a Chodau Ymarfer y Drwydded a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo (Adran 153). Os ydyw'n ystyried ei fod yn briodol, gallai'r awdurdod trwyddedu wyro oddi wrth y Canllawiau os oes ganddynt reswm da am wneud hynny ac y gallant ddarparu'r rhesymau llawn.
- 1.1.4 Mabwysiadwyd y polisi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar **XXXX 2017** ar ôl ystyried y sylwadau a ddaeth i law wrth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw. Daw'r polisi i rym o'r dyddiad hwn a bydd yn parhau mewn grym tan i adolygiad statudol neu adolygiad arall a phroses ymgynghori gael eu hystyried yn angenrheidiol. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n parhau i adolygu'r polisi, gan wneud unrhyw addasiadau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i gefnogi'r amcanion trwyddedu. Bydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu cyhoeddi ar ffurf datganiad polisi newydd neu, os yn briodol, trwy gyhoeddi'r diwygiad.
- 1.1.5 Fel rheol, bydd y polisi'n berthnasol i unrhyw gais a gadarnheir ar ôl y dyddiad y penderfynodd yr awdurdod trwyddedu wneud y polisiâu hyn yn weithredol, ni waeth ar ba ddyddiadau y gwnaed y cais.
- 1.1.6 Cyflwynir yr egwyddorion polisi allweddol mewn blychau wedi'u lliwio.
- 1.1.7 Bydd yr Atodiadau'n cael eu darllen mewn cydweithrediad â'r polisi hwn, ond nid ydynt yn rhan o'r polisi a gallent gael eu diweddarau unrhyw bryd.

1.2 DAEARYDDIAETH CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

- 1.2.1 Mae gan ardal y Fwrdeistref Sirol 37 milltir o forlin, sy'n ymestyn o Lanfairfechan yn y gorllewin draw i Afon Clwyd yn y dwyrain. Mae'n ymestyn i'r tir trwy amrywiaeth o dirweddau i Ddolwyddelan ac i Gerrigydrudion yn y de-orllewin, gan gwmpasu cyfanswm o 113,000 hectar. Gwasanaetha Cyngor y Fwrdeistref Sirol gyfanswm poblogaeth breswyl o 111,800, y mae 80% ohonynt wedi ymgartrefu ar hyd llain arfordirol trefi mwy o faint Abergele, Bae Colwyn a Llandudno. Mae map a phroffil o'r ardal ar gael yn [Atodiad A](#).
- 1.2.2 Mae'r diwydiant hamdden a thwristiaeth yng Nghonwy'n brif gyfrannwr at yr economi leol. Dena Gonwy dros 7 miliwn o dwristiaid ac ymwelwyr y flwyddyn.
- 1.2.3 Mae gan Gonwy dros 220 o safleoedd a awdurdodir gan drwydded safle, rhybudd neu hawlen dan Ddeddf Gamblo 2005.

1.3 Y BROSES YMGYNGHORI

- 1.3.1 Roedd y Datganiad Polisi Trwyddedu drafft yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda:
- Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru;
 - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;
 - Cynrychiolwyr deiliaid yr amryw drwyddedau ar gyfer safleoedd yn yr Ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn;
 - Pobl a busnesau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gamblo awdurdodedig yn yr Ardal
- 1.3.2 Yn ogystal, hysbysebwyd Datganiad y Polisi Trwyddedu drafft ac roedd ar gael i'w archwilio ar wefan yr awdurdod trwyddedu, ac yn swyddfeydd a llyfrgelloedd y cyngor am gyfnod o 4 wythnos yn unol â gofynion y Ddeddf.
- 1.3.3 Rhoddodd yr awdurdod trwyddedu, gan roi ystyriaeth lawn i'r Canllawiau, bwyslais priodol i safbwyntiau'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Wrth benderfynu pa bwyslais i'w rhoi i sylwadau penodol, ystyriodd yr awdurdod trwyddedu:
- pwy wnaeth y sylwadau (beth yw eu harbenigedd neu ddiddordeb)
 - faint o bobl eraill sydd wedi mynegi'r un safbwyntiau neu rai tebyg
 - pa mor bell mae'r sylwadau'n ymwneud â materion y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn eu cynnwys yn y datganiad polisi.

2. Cwmpas a Graddau

- 2.0.1 Pwrpas y datganiad polisi trwyddedu hwn yw gosod yr egwyddorion y bydd yr awdurdod trwyddedu'n eu rhoi ar waith wrth ymarfer ei swyddogaeth drwyddedu, h.y. wrth reoleiddio'r gweithgareddau gamblo o fewn telerau'r Ddeddf. Cyfeirir at y Ddeddf er mwyn ei deall yn hawdd ond ni fwriedir iddi fod yn grynodeb syml o'r ddeddf.
- 2.0.2 Diffinia'r Ddeddf **Gamblo** fel:-
- 2.0.3 **Hapchwarae** - mae'n golygu chwarae 'gêm chwarae siawns' am wobr. Mae 'gêm chwarae siawns' yn cynnwys gêm sy'n cynnwys elfen o hap a dawn, gêm sy'n cynnwys elfen o hap y gellir ei ddileu trwy ddawn benigamp, a gêm a gyflwynir sy'n cynnwys elfen o hap, ond nid yw'n cynnwys camp.
- 2.0.4 **Betio**— mae'n golygu gwneud neu dderbyn bet ar ganlyniad ras, cystadleuaeth neu unrhyw ddigwyddiad arall; y tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd ai peidio; neu a yw rhywbeth yn wir ai peidio.
- 2.0.5 **Cymryd rhan mewn loteri** – mae'n golygu talu er mwyn cymryd rhan mewn trefniant, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd un wobr neu'n fwy'n cael eu clustnodi trwy broses sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar hap.
- Gellir dod o hyd i eirfa lawn o'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf ac yn y polisi hwn yn **Atodiad B**.
- 2.0.6 Mae'n drosedd dan Adran 33 y Ddeddf i ddarparu cyfleusterau ar gyfer Gamblo oni y darperir ar gyfer eithriad dan y Ddeddf.
- 2.0.7 Dyma'r **mathau o awdurdodiad** y mae'r Ddeddf yn gofyn i'r awdurdod trwyddedu eu rheoleiddio:-
- Trwyddedau Safle
 - Rhybuddion Defnydd Dros Dro
 - Rhybuddion Defnydd Achlysurol
 - Hawlenni fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf; a
 - Chofrestriadau fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf.
- 2.0.8 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phob trwydded safle, rhybudd, hawlen a chofrestriad a ddynodwyd sy'n syrthio o fewn darpariaethau'r Ddeddf, sef: -
- Trwyddedau Safle
 - Casinos;
 - Safleoedd Bingo;
 - Safleoedd Betio;
 - Traciau (*safle lle cynhelir rasys neu ddigwyddiadau chwaraeon eraill*);
 - Canolfannau Hapchwarae i Oedolion;
 - Canolfannau Adloniant Teuluol Trwyddedig;
 - Rhybuddion
 - Rhybuddion Defnydd Dros Dro
 - Rhybuddion Defnydd Achlysurol

- Hawlenni
 - Hawlenni Peiriannau Hapchwarae'r Ganolfan Adloniant i Deuluoedd;
 - Hawlenni Hapchwarae Clybiau;
 - Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Clybiau
 - Hawlenni Peiriannau Hapchwarae safleoedd trwyddedig i werthu alcohol;
 - Hawlenni Hapchwarae am Wobrau;
- Cofrestriadau
 - Cofrestriadau Ioterïau Cymdeithasau Bach

3. Amcanion Trwyddedu

- 3.0.1 Wrth gyflawni ei swyddogaethau dan y Ddeddf, rhaid i'r awdurdod trwyddedu geisio hrwyddo'r tri **amcan trwyddedu** yn y Ddeddf. Dyma'r tri amcan:
- atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
 - sicrhau bod gamblo'n cael ei wneud yn deg ac yn agored; ac
 - diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy gamblo.

3.1 AMCAN 1: ATAL GAMBLO RHAG BOD YN FFYNHONNELL TROSEDD AC ANHREFN

- 3.1.1 Wrth benderfynu ar geisiadau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried a fydd rhoi trwydded safle'n arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn.
- 3.1.2 Noda'r Canllawiau i awdurdodau lleol mai "bwriad anhrefn yw golygu gweithgaredd sy'n fwy difrifol ac aflonyddgar na dim ond niwsans. Ymhlith y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ynghylch a oedd aflonyddwch yn ddigon difrifol i gael ei ystyried yn anhrefn mae: a oedd angen cymorth yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rhai oedd yn gallu ei weld neu ei glywed." Mae'r awdurdod trwyddedu'n cytuno â'r datganiad hwn.

3.1.3 Anogir yr ymgeiswyr i drafod y gweithdrefnau atal troseddau yn eu safleoedd gyda Swyddogion Trwyddedu'r awdurdod trwyddedu ac/neu Heddlu Gogledd Cymru cyn gwneud cais ffurfiol.

- 3.1.4 Wrth ystyried y ceisiadau am drwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y canlynol yn benodol:
- Dyluniad a chynllun y safle;
 - Yr hyfforddiant a roddir i staff mewn mesurau atal troseddau sy'n briodol i'r safleoedd hynny;
 - Y nodweddion diogelwch ffisegol sydd wedi'u gosod ar y safle. Gallai hyn gynnwys materion fel safle cofnodyddion arian neu safon y teledu cylch caeëdig sydd wedi'i osod;
 - Lle mae safle'n destun cyfyngiadau oedran, y gweithdrefnau sydd ar waith i gynnal archwiliadau gwirio oedran;
 - Y tebygolrwydd o broblem gyda thrais, trefn gyhoeddus neu blismona os rhoddir y drwydded.

3.2 AMCAN 2: SICRHAU BOD GAMBLO'N CAEL EI GYNNAL YN DEG AC YN AGORED

- 3.2.1 At ei gilydd, ni fyddai'r Comisiwn yn disgwyl i awdurdodau trwyddedu boeni ynghylch sicrhau y cynhelir gamblo'n deg ac yn agored oherwydd bydd hwn yn fater i reolwyr y busnes gamblo, ac felly'n destun y Drwydded Weithredu, neu fe fydd mewn perthynas ag addasrwydd a chamau gweithredu'r unigolyn ac felly'n destun y Drwydded Bersonol, y mae'r ddau'n gyfrifoldeb i'r Comisiwn Gamblo.

3.3 AMCAN 3: DIOGELU PLANT A PHOBL DDIAMDDIFFYN ERAILL

- 3.3.1 Gydag eithriadau cyfyngedig, ni chaniateir mynediad i blant a phobl ifanc i safleoedd gamblo trwyddedig, sef amgylcheddau i oedolion yn unig.

3.3.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ceisio cyfyngu'r hysbysebu ar gyfer safleoedd er mwyn i gynhyrchion gamblo beidio â chael eu hanelu at blant na'u hysbysebu mewn ffordd sy'n eu gwneud nhw'n hynod ddeniadol i blant.

3.3.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymgynghori ag Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw gais sy'n dynodi y gallai fod pryderon ynghylch mynediad i blant neu bobl ddiamddiffyn.

3.3.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n barnu haeddiant pob cais ar wahân cyn penderfynu a fyddant yn gosod amodau i ddiogelu plant ar categorïau safleoedd penodol. Gallai hyn gynnwys gofynion fel:

- Goruchwylio mynedfeydd;
- Gwahanu ardaloedd gamblo wrth ardaloedd sy'n cael eu mynychu gan blant;
- Goruchwylio peiriannau hapchwarae mewn safleoedd heb fod yn benodol i gamblo gan oedolion

- 3.3.5 Mae Deddf 2005 yn darparu ar gyfer Cod Ymarfer ar fynediad i safleoedd casino gan blant a phobl ifanc a bydd yr awdurdod trwyddedu'n gweithio'n agos gyda'r heddlu i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gorfodi'n briodol.

3.3.6 Nid yw'r awdurdod trwyddedu'n ceisio gwahardd grwpiau penodol o oedolion rhag gamblo yn yr un ffordd ag y mae'n ceisio gwahardd plant ond bydd yn tybio, at ddibenion rheoleiddio, bod '**pobl ddiamddiffyn**' yn cynnwys :

- pobl sy'n gamblo mwy nag y maen nhw eisïau;
- pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w hincwm; a
- phobl sydd efallai'n methu gwneud penderfyniad deallus na chytbwys am gamblo oherwydd nam ar y meddwl, alcohol neu gyffuriau.

4. Deddfwriaeth a Pholisïau

4.1 DEDDFWRIAETH

4.1.1 Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005, bydd yr awdurdod trwyddedu'n defnyddio ystod lawn o fesurau gan gynnwys ei ddulliau rheoli cynllunio a bod yn ystyriol o ddeddfwriaeth, strategaethau a pholisïau a allai effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1988;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974;
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;
- Deddf Cysylltiadau Hiliol, 1976 (fel y diwygiwyd)
- Deddf Trwyddedu 2003
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Cod Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr
- Polisi Gorfodi Gwasanaeth Rheoleiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Fodd bynnag, nid bwriad y polisi yw dyblygu deddfwriaeth bresennol a chyfundrefnau rheoleiddio sydd eisoes yn gosod rhwymedigaethau ar gyflogwyr a gweithredwyr.

4.2 CYNLLUNIO A RHEOLI ADEILADU

4.2.1 Caiff cynllunio, rheoli adeiladu a chyfundrefnau trwyddedu eu gwahanu'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Maen nhw'n cynnwys ystyriaeth o faterion gwahanol ond cysylltiedig.

4.2.2 Mae yna ddau Awdurdod Cynllunio Lleol gyda chyfrifoldebau cynllunio statudol yn sir Conwy, sef:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – sy'n gweithredu yn yr ardaloedd sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri.

Parc Cenedlaethol Eryri – sy'n Awdurdod Cynllunio annibynnol ac yn gyfrifol am unrhyw ardal sydd o fewn ei ffiniau.

4.2.3 Caiff polisïau cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu gosod yng 'Nghynllun Datblygu Unedol Conwy' a 'Chanllawiau Cynllunio Atodol'. Caiff polisïau cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri eu gosod yng 'Nghynllun Datblygu Lleol Eryri' a'r 'Canllawiau Cynllunio Atodol'.

4.2.4 Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio'n cydweithio wrth baratoi eu cynlluniau priodol i:

- ddatblygu polisïau cyflenwol a chyfatebol,
- sicrhau cynllunio tymor hir effeithiol a chynaliadwy, ac
- optimeiddio buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

4.2.5 At ei gilydd, mae caniatadau cynllunio'n awdurdodi math eang o ddefnydd o safle, lle mae trwyddedau'n cael eu rhoi ar gyfer math o weithgaredd penodol. Gallai caniatâd cynllunio at ddefnydd adloniant, er enghraifft, gynnwys gweithgareddau a all esgor ar ystod eang o wahanol effeithiau yn yr ardal. Mae angen ystyried union natur effeithiau'r gweithgareddau penodedig a gynigir gan ymgeisydd ar gyfer trwydded safle wrth wneud y cais.

4.2.6 Fel rheol, bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl cyn cyflwyno cais trwyddedu, y bydd caniatâd cynllunio priodol wedi'i roi mewn perthynas ag unrhyw safle. Fodd bynnag, gallai ceisiadau am drwyddedau gael eu gwneud cyn bod unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol wedi'i geisio neu ei roi.

4.2.7 Fel rheol, bydd yr awdurdod hefyd yn disgwyl i'r gweithgaredd gael ei awdurdodi gan y drwydded i fod yn ddefnydd cynllunio cyfreithlon ac nad yw unrhyw oriau gweithredu a geisiwyd yn rhagori'r rhai a awdurdodir gan y caniatâd cynllunio, os o gwbl.

4.2.8 Nid yw'r oriau gweithredu a roddwyd o fewn y broses drwyddedu'n disodli unrhyw gyfyngiadau a osodwyd fel amod cynllunio. Eir i'r afael â'r amodau cynllunio trwy'r broses gynllunio.

5. Dirprwyo, Pwyllgor Trwyddedu a Gwneud Penderfyniadau

5.1 DIRPRWYO

5.1.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu ynghlwm ag ystod eang o benderfyniadau a swyddogaethau trwyddedu ac wedi sefydlu Pwyllgor Trwyddedu i'w gweinyddu. Gan fod y pwyllgor yn gwerthfawrogi'r angen i ddarparu gwasanaeth cyflym, effeithlon a chost effeithiol i bob parti dan sylw yn y broses drwyddedu, mae wedi dirprwyo rhai penderfyniadau a swyddogaethau ac wedi sefydlu Is-bwyllgor i ddelio â nhw.

5.1.2 Bydd llawer o'r penderfyniadau a'r swyddogaethau'n gwbl weinyddol eu natur a bydd y gwaith o roi ceisiadau annadleuol, er enghraifft, y trwyddedau a'r hawlenni hynny lle na wnaed unrhyw sylwadau, yn cael eu dirprwyo i Swyddogion y Cyngor.

5.1.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dirprwyo materion trwyddedu er mwyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a Swyddogion ddelio â nhw yn unol â'r Dirprwyo Swyddogaethau diweddaraf a argymhellwyd yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 182 y Ddeddf. Mae'r tabl a ddangoswyd yn **Atodiad C** yn gosod y ddirprwyaeth penderfyniadau a swyddogaethau cytûn i'r Pwyllgor, Paneli a Swyddogion Trwyddedu.

5.1.4 Mae'r math yma o ddirprwyo'n ddiragfarn i Swyddogion sy'n cyfeirio cais at Banel, Panel at Bwyllgor Llawn, neu Bwyllgor at Gyngor Llawn, os yn briodol.

5.2 PWYLLGOR TRWYDDEDU

5.2.1 Mae'r Ddeddf yn amodi y bydd swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu, gan gynnwys ei benderfyniadau, yn cael eu cyflawni gan ei bwyllgor trwyddedu. Cyfeirir at y pwyllgor hwn fel y **Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol** yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n cynnwys 15 aelod.

5.2.2 Gallai'r pwyllgor trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i is-bwyllgorau neu mewn achosion priodol, i swyddogion sy'n cefnogi'r awdurdod trwyddedu.

- 5.2.3 Mae Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penodi **Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol** i ddelio gyda
- Ceisiadau lle mae yna sylwadau perthnasol
 - Ceisiadau i adolygu trwydded safle
 - Ceisiadau ar gyfer hawlenni hapchwarae mewn clybiau/peiriannau mewn clybiau lle mae yna sylwadau perthnasol
 - Penderfyniad i roi gwrth rybudd i Rybudd Defnydd Dros Dro.

5.2.4 Mae'r Is-bwyllgor yn cynnwys 3 aelod a fydd yn eistedd i wrando ar geisiadau lle daeth sylwadau i law gan bartïon cyfrannog ac awdurdodau cyfrifol. Ni fydd cynghorwyr y wardiau'n eistedd ar is-bwyllgor sy'n cynnwys cais yn eu ward hwy.

5.2.5 Lle mae cyngor sy'n aelod o'r **Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol** yn gwneud neu wedi gwneud sylwadau mewn perthynas â thrwydded ar ran parti cyfrannog, byddant yn datgymhwysu'u hunain, er lles llywodraethu da, o unrhyw ymwneud yn y broses gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y drwydded dan sylw.

5.2.6 Bydd yr Isbwyllgor Trwyddedu Cyffredinol yn cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol unrhyw fater y mae'n methu delio ag ef oherwydd nifer ei aelodau sy'n methu cymryd rhan wrth ystyried neu drafod unrhyw fater neu bleidlais ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas ag ef.

5.2.7 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol yn cyfeirio at y Cyngor Llawn unrhyw fater y mae'n methu delio ag ef oherwydd nifer ei aelodau sy'n methu cymryd rhan wrth ystyried neu drafod unrhyw fater neu bleidlais ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas ag ef.

5.3 GWNEUD PENDERFYNIADAU

- 5.3.1 Bydd rhesymau clir ac argyhoeddiadol yn cyd-fynd â phob penderfyniad trwyddedu gan y Pwyllgor neu'r Isbwyllgor Trwyddedu Cyffredinol. Bydd y penderfyniad a'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw'n cael eu hanfon at yr Ymgeisydd a'r rhai sydd wedi gwneud sylwadau perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol.
- 5.3.2 Bydd crynodeb o'r penderfyniad yn cael ei osod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl i'r penderfyniad gael ei gadarnhau, lle bydd yn rhan o'r gofrestr trwyddedu statudol y mae angen i'r awdurdod trwyddedu ei chadw.
- 5.3.3 Bydd swyddogion trwyddedu'r Cyngor yn delio â phob cais arall am drwydded lle na ddaeth unrhyw sylwadau i law, neu lle ddaeth sylwadau i law a bod y partïon yn cytuno nad oes angen gwrandawriad.
- 5.3.4 Bydd penderfyniadau o ran a fydd sylwadau'n amherthnasol, yn ddisylwedd neu'n flinderus yn cael eu gwneud gan swyddogion y Cyngor, a fydd yn penderfynu ynghylch a ddylid cyfeirio sylwadau neu geisiadau am adolygiadau o drwyddedau at y pwyllgor trwyddedu neu'r paneli. Lle gwrthodir sylwadau, bydd rhesymau ysgrifenedig yn cael eu rhoi i esbonio'r rheswm dros hynny
- 5.3.5 Er mwyn osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau statudol eraill cyn belled â bo modd, ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n clymu amodau wrth drwydded oni ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yn gyffredinol, bydd amodau'n cael eu hystyried yn ddiangen os oes deddfwriaeth arall eisoes yn ymdrin yn ddigonol â nhw.

6. Egwyddorion Cyffredinol

- 6.0.1 Ni fydd unrhyw beth yn y 'Datganiad Polisi' hwn:
- Yn tansellio hawliau unrhyw un i wneud cais dan y Ddeddf am ganiatâd amrywiol a chael y cais wedi'i ystyried yn ôl ei haeddiant unigol; NEU
 - Yn diystyru hawl unrhyw un i wneud sylwadau ar unrhyw gais neu geisio adolygiad o drwydded neu hawlen lle mae ganddynt ganiatâd i wneud hynny dan y Ddeddf.
- 6.0.2 Wrth gyflawni ei swyddogaeth drwyddedu, bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.
- 6.0.3 Nod yr awdurdod trwyddedu fydd caniatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo cyn belled ag eu bod nhw'n meddwl ei fod
- Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol dan Adran 24 y Ddeddf;
 - Yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn;
 - Yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu
 - Yn unol â datganiad polisi trwyddedu'r awdurdod trwyddedu.
- 6.0.4 Nid yw galw heb ei fodloni'n faen prawf fydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gais am drwydded safle dan y Ddeddf.

6.1 AWDURDOD CYMWYS I DDIOGELU PLANT RHAG NIWED

- 6.1.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n dynodi Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdod cymwys i roi cyngor ar ddiogelu plant rhag niwed o gofio'r cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd arbenigol sydd wrth law i ddiwallu'r swyddogaeth hon.
- 6.1.2 Mae'r Ddeddf yn dynodi bod rhaid i bob awdurdod trwyddedu enwebu un corff i gyflawni'r swyddogaeth hon ond gallai fod yn ddarbodus i'r awdurdod trwyddedu gynnwys sefydliadau eraill os ydyw'n credu ei bod hi'n iawn gwneud hynny er mwyn atal eu niwed corfforol, moesol neu seicolegol, yn enwedig lle mae'n derbyn sylwadau i'r perwyl hwnnw.

6.2 PARTIÖN CYFRANNOG

- 6.2.1 At ddibenion Deddf Gamblo 2005, mae rhywun yn barti cyfrannog mewn perthynas â thrwydded safle os ydy'r unigolyn, ym marn yr awdurdod trwyddedu sy'n cyhoeddi'r drwydded neu y gwneir y cais iddo:
- Yn byw'n ddigon agos i'r safle sy'n debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig;
 - Yn meddu ar gysylltiadau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a phractisiau meddygol;
 - Yn cynrychioli pobl sy'n bodloni'r naill un o'r uchod; er enghraifft Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid.
- 6.2.2 Wrth ystyried ydy unigolyn yn barti cyfrannog, bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei haeddiant gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau i'r awdurdodau lleol.
- 6.2.3 Lle mae rhywun, sy'n cael ei effeithio'n uniongyrchol ai peidio gan gais neu'n byw yng nghyffiniau safle trwyddedadwy dan ystyriaeth, yn rhoi ei hun gerbron i gynrychioli buddiannau preswylwyr yn y cyffiniau, fel rheol bydd yr awdurdod trwyddedu'n gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth eu bod yn ymddwyn fel cynrychiolwyr pobl eraill.

6.3 CYFNEWID GWYBODAETH

- 6.3.1 Wrth ddiwallu ei swyddogaethau a'i rwymedigaethau dan Ddeddf Gamblo 2005, bydd yr awdurdod trwyddedu'n cyfnewid gwybodaeth berthnasol gyda chyrrff rheoleiddio eraill a bydd yn cadarnhau protocolau yn hyn o beth. Wrth gyfnewid y wybodaeth honno, bydd yr awdurdod trwyddedu'n cydymffurfio â gofynion Deddf Gamblo, deddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth yn unol â pholisïau presennol y Cyngor.
- 6.3.2 Bydd manylion cyswllt y bobl hynny sy'n gwneud sylwadau a manylion y sylwadau ar gael i ymgeiswyr er mwyn eu galluogi i drafod ac, yn achos cynnal unrhyw wrandawriad, bydd yn ffurfio rhan o ddogfen gyhoeddus. Bydd unrhyw un sy'n gwneud sylwadau neu'n gwneud cais i adolygu trwydded safle'n cael gwybod y bydd y manylion hyn yn cael eu datgelu.

6.4 ARCHWILIADAU AC ACHOSION TROSEDDOL

- 6.4.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo ac yn ymdrechu i fod yn:
- **Gymesur:** bydd y rheoleiddwyr ond yn ymyrryd pan fo angen; bydd gwelliannau ond yn briodol i'r risg a gyflwynir a'r costau a ddynodwyd ac yn cael eu lleihau.
 - **Atebol:** bydd y rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau ac yn destun craffu cyhoeddus.
 - **Cyson:** bydd rheolau a safonau'n gydlynol ac yn cael eu gweithredu'n deg.
 - **Tryloyw:** bydd y rheoleiddwyr yn agored ac yn ymdrechu i gadw'r rheoliadau'n syml ac yn gyfeillgar i ddefnyddwyr;
 - **Targedig:** bydd rheoleiddio'n canolbwyntio ar y broblem ac yn lleihau'r sgil-ffeithiau.
- 6.4.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymdrechu i osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.
- 6.4.3 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, bod nifer o fecanweithiau eraill ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad afreolus a all ddigwydd i ffwrdd o'r safle trwyddedig, gan gynnwys:
- Rheolaethau cynllunio;
 - Mesurau parhaus i greu amgylchedd diogel a glân yn yr ardaloedd hyn mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant ac Adrannau eraill y Cyngor;
 - Cyswllt rheolaidd gyda'r Heddlu ar faterion gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
 - Grym yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu breswlydd neu fusnes lleol i ofyn am adolygiad o'r drwydded.
- 6.4.4 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi mabwysiadu rhaglen archwilio seiliedig ar risgiau, h.y. bydd y safleoedd hynny yr ystyrir eu bod yn peri mwy o risg yn destun archwiliadau amlach na'r rhai sy'n cyflwyno risg is.
- 6.4.5 Wrth benderfynu ar risg, rhoddir ystyriaeth i:-
- natur y gweithgareddau gamblo fydd yn cael eu cyflawni ar y safle
 - lleoliad y safle mewn perthynas ag ysgolion etc.
 - y gweithdrefnau a roddwyd ar waith gan y rheolwyr i fodloni'r amcanion trwyddedu.
- 6.4.6 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n gwneud trefniadau i fonitro safleoedd, ymgymryd ag archwiliadau a chymryd camau gorfodi priodol fel yr ystyrir yn angenrheidiol i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu neu'n dilyn derbyn cwyn. Bydd yr ardal yn cael ei monitro am safleoedd didrwydded.
- 6.4.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ceisio gweithio'n ymarferol gyda'r heddlu wrth orfodi deddfwriaeth drwyddedu. Mae'n annog yr heddlu i rannu gwybodaeth am drwyddedigion a safleoedd trwyddedig dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.
- 6.4.8 At ei gilydd, bydd camau ond yn cael eu cymryd yn unol â Pholisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd. I'r perwyl hwn, bydd egwyddorion allweddol cysondeb, tryloywder a chymesuredd yn cael eu cynnal.

- 6.4.9 Lle mae amodau wedi'u gosod ar drwydded, gallai rhywun awdurdodedig o'r awdurdod trwyddedu archwilio'r safle ar unrhyw adeg resymol at ddibenion sicrhau y cydymffurfir â'r amodau hynny.
- 6.4.10 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried cyhoeddi rhybudd ysgrifenedig anffurfiol i ddeiliaid trwydded yn nodi'r gwelliant a argymhellir cyn pen cyfnod amser penodedig os ystyrir ei fod yn angenrheidiol i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

7. Y Broses Drwyddedu

- 7.0.1 **Cynghorir yr ymgeiswyr fod y broses ymgeisio ar gyfer pob math o awdurdodiad neu ganiatâd wedi'i gosod yn fanwl yn y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Canllawiau.**
- 7.0.2 Rhaid gwneud ceisiadau ar y ffurflen benodedig neu leol, gyda'r ffi i gyd-fynd â hi. Gellir lawrlwytho pob ffurflen a rhybudd penodedig o wefan y Comisiwn www.gamblingcommission.gov.uk.
- 7.0.3 Mae pob ffurflen gais leol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr awdurdod trwyddedu. Gellir hefyd gofyn i'r awdurdod trwyddedu yn uniongyrchol am ffurflen gais trwy ffonio 01492 576626.
- 7.0.4 Gall ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau'n electronig i'r awdurdod trwyddedu trwy gopi caled neu drwy e-bost i LICENSING@CONWY.GOV.UK.

7.1 CEISIADAU

- 7.1.1 Y man cychwyn wrth benderfynu ar geisiadau fydd caniatáu'r cais, heb amodau.
- 7.1.2 Bydd amodau'n cael eu hystyried dim ond lle mae eu hangen i fodloni gofynion yr amcanion trwyddedu ac ni fydd unrhyw amodau a roddir ar waith yn rhy feichus a byddant yn gymesur â graddfa'r cais a'r 'risgiau' sydd ynghlwm. At ei gilydd, ystyrir bod yr amodau'n ddiangen os oes deddfwriaeth arall eisoes yn ymdrin yn ddigonol â nhw.
- 7.1.3 Wrth benderfynu ar gais i ganiatáu trwydded safle, neu adolygu trwydded safle, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i
- agosrwydd y safle at ysgolion, canolfannau i oedolion diamddiffyn, neu at ardaloedd preswyl gyda chrynodiad uchel o deuluoedd gyda phlant, a
 - maint a chwmpas y safle gamblo dan sylw.
- 7.1.4 **Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei haeddiant.** Felly, os gall ymgeisydd ddangos yn effeithiol sut gallai oresgyn pryderon amcanion trwyddedu, bydd hyn yn cael ei ystyried.
- 7.1.5 Lle nad oes unrhyw **sylwadau perthnasol** gan Awdurdodau Cyfrifol neu Bartion Cyfrannog i gais, bydd y drwydded yn cael ei chaniatáu ar yr amod bod y cais yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Ddeddf. Er mwyn i sylwadau fod yn berthnasol, rhaid
- iddynt ymwneud â hyrwyddo un o'r tri amcan trwyddedu;
 - iddynt gael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu barti cyfrannog o fewn y cyfnod penodedig;

- iddynt beidio â chael eu tynnu'n ôl; ac
- nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol, yn ddisylwedd neu'n flinderus.

7.1.6 Lle daw sylwadau perthnasol ar gais i law a bod y cais wedi'i wneud yn unol â gofynion y Ddeddf, gallai unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol eraill gael eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un ai i roi trwydded ai peidio.

7.2 CYFRYNGDOD

7.2.1 Lle gwneir sylwadau perthnasol yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu gan awdurdodau cyfrifol neu barti cyfrannog, bydd yr adran drwyddedu'n penderfynu ydy'r sylw'n berthnasol ai peidio.

7.2.2 Lle mae'r awdurdod trwyddedu'n canfod fod y sylwadau'n berthnasol, gallai argymhell **cyfarfod cyfryngu** er mwyn mynd i'r afael â'r materion pryder a'u hegluro.

7.2.3 Ni fydd y broses hon yn drech na hawl ymgeisydd neu barti cyfrannog i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cyfryngu.

7.2.4 Os ydy'r broses anffurfiol hon yn aflwyddiannus, bydd gwrandawriad o flaen y pwyllgor neu'r is-bwyllgor trwyddedu'n dilyn. Bydd pob parti perthnasol yn cael gwybod.

7.2.5 Bydd y penderfyniad ar y cais yn cael ei wneud gan y pwyllgor neu'r isbwyllgor trwydded a bydd manylion y penderfyniad hwnnw'n cael ei ddosbarthu i'r partion dan sylw.

7.3 AMODAU

- 7.3.1 Mae'r Ddeddf a'r rheoliadau'n amodi ar gyfer cysylltu amodau penodol â Thrwydded Safle fel naill ai amodau "**gorfodol**" neu "**ddiofyn**".
- 7.3.2 Mae Adran 169 y Ddeddf yn rhoi'r grym i'r awdurdodau trwyddedu osod amodau diofyn ar drwyddedau safle a gyhoeddir ganddynt.
- 7.3.3 Wrth ystyried unrhyw amodau i'w clymu wrth y trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried yr amgylchiadau lleol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â safleoedd penodol neu ddsbarth o safleoedd, a allai gyflwyno'r angen am amodau.

7.3.4 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n gosod unrhyw amodau oni ddefnyddiwyd ei ddisgresiwn yn dilyn gwneud sylwadau perthnasol a'i fod yn fodlon mewn gwrandawriad o'r angen i osod amodau oherwydd y sylwadau a godwyd. Dim ond bryd hynny y bydd yn gosod yr amodau sy'n briodol ac yn gymesur i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sy'n codi o ystyried y sylwadau.

- 7.3.5 Bydd yr amodau ar y trwyddedau safle ond yn ymwneud â gamblo, fel yr ystyrir eu bod yn briodol yng ngoleuni'r egwyddorion canlynol:
- Rhaid iddynt fod yn gymesur â'r amgylchiadau maen nhw'n ceisio mynd i'r afael â nhw;
 - Dylsent fod yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo;
 - Dylsent fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r safle (gan gynnwys yr ardal ac unrhyw risgiau lleol dynodedig) a'r math o drwydded y gwnaed cais amdani;
 - Dylsent gael eu cysylltu'n deg ac yn rhesymol â graddfa'r safle a'r math o safle;
 - Dylsent fod yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

7.4 ADOLYGIADAU

- 7.4.1 Unrhyw bryd yn dilyn caniatáu trwydded safle, gallai **awdurdod cyfrifol** neu unrhyw **barti cyfrannog** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded safle oherwydd mater sy'n codi yn y safle mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r tri amcan trwyddedu.
- 7.4.2 Mae'r broses adolygu'n cynrychioli diogelwch allweddol i'r gymuned lle mae problemau'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu'n digwydd ar y safle.
- 7.4.3 Ym mhob achos, rhaid i gais am adolygiad ymwneud â safle penodol a **rhaid iddo fod yn berthnasol i hyrwyddo un o'r amcanion trwyddedu neu'n fwy.**
- 7.4.4 Hwyrach mai'r rhesymau am adolygiad yw bod gweithgareddau, gan gynnwys y canlynol, yn digwydd ar y safle:
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a gwyngalchu elw o droseddau cyffuriau;
 - Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau anghyfreithlon;

- Defnyddio safle trwyddedig at ddibenion puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- Defnyddio safle trwyddedig fel lleoliad am weithgareddau troseddol trefnedig;
- Defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol;
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau wedi'u smyglu;
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau wedi'u dwyn;
- Bod plant ac/neu bobl ddi-amddiffyn yn cael eu rhoi mewn perygl.

7.4.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n gwrthod cais am adolygiad os bydd yr ymgeisydd yn methu darparu gwybodaeth ategol ac yn cofnodi nad oes un neu'n fwy o'r amcanion trwyddedu'n cael eu bodloni neu os nad yw'r rheswm am yr adolygiad yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

7.4.6 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn gwrthod cais am adolygiad

- os ydy'r rhesymau'n ddisylwedd;
- os ydy'r rhesymau'n flinderus;
- os ydy'r rhesymau'n amherthnasol;
- os na fydd y rhesymau'n achosi'r Cyngor i ddirymu neu ohirio trwydded neu dynnu ymaith neu gysylltu amodau at y Drwydded Safle;
- os ydy'r rhesymau yr un fath i raddau helaeth â'r rhesymau a nodwyd mewn cais blaenorol yn ymwneud â'r un safle; neu os
- ydy'r rhesymau yr un fath i raddau helaeth â'r sylwadau a wnaed adeg ystyried y cais am Drwydded Safle.

7.4.7 Ystyria'r awdurdod trwyddedu ei bod yn arfer da i'r holl awdurdodau cyfrifol sydd â phryderon am broblemau a ddynodwyd yn y safle i roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded am eu pryder a'r angen am welliant, a lle bo modd, dylent gynghori deiliad y drwydded o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

CYCHWYN ADOLYGIAD GAN AWDURDOD TRWYDDEDU

7.4.8 Gallai awdurdod trwyddedu hefyd ddewis adolygu Trwydded Safle ei hun.

7.4.9 Cyn defnyddio'i bŵer cyn cychwyn adolygiad, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ceisio cael trafodaethau adeiladol gyda'r gweithredwyr ynghylch unrhyw bryderon a gallai ofyn i'r gweithredwr ddarparu ei **asesiad risg** ei hun i'r awdurdod trwyddedu sy'n gosod y dulliau rheoli sydd ganddo ar waith i liniaru'r risgiau.

8. Safonau Lleol

8.1 TRWYDDEDAU SAFLE

8.1.1 Gall Trwyddedau Safle awdurdodi darpariaeth cyfleusterau gamblo mewn

- Casinos;
- Safleoedd Bingo;
- Safleoedd Betio, gan gynnwys Traciau;
- Canolfannau Hapchwarae i Oedolion; a
- Chanolfannau Adloniant i Deuluoedd.

Trwy wahaniaethu rhwng y mathau o safleoedd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n glir y dylai gweithgareddau gamblo fod yn gysylltiedig â'r safleoedd a ddisgrifir. **Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i safleoedd gael eu trwyddedu am fwy nag un o'r gweithgareddau uchod.**

8.1.1 Yr unig bobl a all wneud cais am Drwydded Safle (sy'n cynnwys cwmnïau neu bartneriaethau) yw'r bobl:

- Sy'n 18 oed neu'n hŷn, **ac**
- Sydd â'r hawl i feddiannu'r safle ac
- Sydd â Thrwydded Weithredu sy'n ei awdurdodi i gynnal y gweithgaredd arfaethedig NEU sydd wedi gwneud cais am Drwydded Weithredu i'w galluogi i gyflawni'r gweithgaredd arfaethedig.

Ni ellir penderfynu ar y drwydded safle hyd nes i drwydded weithredu gael ei chyhoeddi.

8.1.2 Yr eithriad i hyn yw ymgeisydd am drwydded safle er mwyn galluogi i drac gael ei ddefnyddio i fetio, gan nad oes angen i'r ymgeiswyr hyn ddal trwydded weithredu os ydynt ond yn darparu lle i bobl eraill ddarparu betio (a bod y bobl eraill hynny yn dal trwyddedau gweithredu betio dilys).

8.1.3 Mae'r awdurdod trwyddedu'n annog ymgeiswyr yn gryf i drafod ceisiadau arfaethedig gyda swyddog trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol yn gynnar a chyn cyflwyno'r cais ei hun. Dylai hyn godi problemau posibl a helpu meithrin gwaith partneriaeth da. Gallai hefyd leihau'r angen am wrandawriad yn nes ymlaen.

8.1.4 Anogir yr ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw bolisiau cynllunio a chlodiant, strategaethau twristiaeth a diwylliannol a strategaethau trosedd ac anhrefn lleol perthnasol, a lle bo'n briodol, i ystyried y rhain wrth ffurfio'u hamserlenni gweithredu.

- 8.1.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i bob ymgeisydd ddynodi'r dulliau y byddant yn eu defnyddio i hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu yn eu hamserlenni gweithredu, ar ôl ystyried y math o safle, y gweithgaredd trwyddedadwy arfaethedig, y gweithdrefnau gweithredol, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.
- 8.1.6 Ystyria'r awdurdod fod amserlen weithredu wedi'i llunio'n dda, yn benodol yn dynodi bod ymgeisydd yn deall a'i fod yn barod i ddiwallu cyfrifoldebau deiliad trwydded dan y Ddeddf.
- 8.1.7 Ystyria'r awdurdod y gallai amserlen weithredu wag neu heb ei llenwi lawer roi'r argraff fod yr ymgeisydd heb feddwl yn ddigonol am gyfrifoldebau deiliad trwydded.
- 8.1.9 Nid yw galw heb ei fodloni'n faen prawf a fydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gais am drwydded safle dan Ddeddf Gambo 2005.

CASINOS

- 8.1.10 Nid oes penderfyniad i wahardd casinos yng Nghonwy ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r awdurdod trwyddedu'n cadw ei hawl i adolygu'r sefyllfa hon a gallai, rhywbryd yn y dyfodol, benderfynu peidio â rhoi'r hawl i gasinos. Nid oes unrhyw gasinos yn gweithredu yng Nghonwy ar hyn o bryd.
- 8.1.11 Os bydd yr awdurdod trwyddedu'n dewis gwneud y fath benderfyniad, bydd hwn yn benderfyniad gan y Cyngor Llawn yn dilyn dadl wedi'i hystyried a bydd y rhesymau am wneud y penderfyniad yn cael eu darparu. Ni fydd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

SAFLEOEDDBINGO

- 8.1.12 Ni roddir diffiniad statudol i fingo yn y Ddeddf ond deellir dau fath o fingo yn gyffredinol:
- Bingo arian parod, lle mae'r arian betio a delir yn creu'r gwobrau ariannol a enillir
 - Bingo gwobrau, lle enillir amryw fathau o wobrau, heb fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r arian betio a dalwyd.
- 8.1.13 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cysylltu amodau gorfodol a diofyn â phob trwydded Safle Bingo.

SAFLEOEDDBETIO

- 8.1.14 Mae'r awdurdod trwyddedu'n gyfrifol am gyhoeddi a monitro trwyddedau safle i bob safle betio.
- 8.1.15 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cysylltu amodau gorfodol a diofyn â phob trwydded Safle Betio.

Traciau

- 8.1.16 Nid yw'r Ddeddf yn rhoi rhestr o safleoedd sy'n cael eu cydnabod yn swyddogol fel 'traciau' ond ceir nifer o leoliadau lle mae neu lle gallai digwyddiadau chwaraeon ddigwydd, ac yn unol â hynny, gallent ddarparu cyfleusterau betio. Ymhlith yr enghreifftiau o draciau mae
- Cae rasio ceffylau
 - Trac milgwn
 - Cyfarfod rasio ceffylau o fan i fan
 - Cae pêl-droed, criced a rygbi
 - Cwrs golff
 - Lleoliadau sy'n cynnal cystadlaethau dartiau, bowliau neu snwcer.

8.1.17 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n penderfynu beth sy'n gyfystyr â digwyddiad chwaraeon neu ras fesul achos.

CANOLFANNAU HAPCHWARAE I OEDOLION

- 8.1.18 Rhaid i ymgeiswyr am Drwydded Safle Canolfan Hapchwarae i Oedolion feddu ar 'Drwydded Weithredu Gyffredinol am Beiriannau Hapchwarae (Canolfan Hapchwarae i Oedolion)' gan y Comisiwn Gamblo cyn y gellir penderfynu ar y drwydded safle.
- 8.1.19 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cysylltu amodau gorfodol â holl drwyddedau Safle'r Canolfannau Hapchwarae i Oedolion.

CANOLFANNAU ADLONIAnt I DEULUOEDD

- 8.1.20 Rhaid i ymgeiswyr am Drwydded Safle Canolfan Adloniant i Deuluoedd feddu ar 'Drwydded Weithredu Gyffredinol Peiriannau Hapchwarae (Canolfan Adloniant i Deuluoedd) gan y Comisiwn Gamblo cyn y gellir penderfynu ar y drwydded safle.
- 8.1.21 At ei gilydd, lleolir Canolfannau Adloniant i Deuluoedd trwyddedig mewn cyrchfannau glan môr, mewn meysydd awyr ac mewn gorsafoddd gwasanaethau ar y draffordd ac maen nhw'n darparu ar gyfer teuluoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain. Fe'u caniateir i gael peiriannau hapchwarae categori C a D.
- 8.1.22 Ni chaniateir plant a phobl ifanc i ddefnyddio peiriannau categori C ac mae'n ofyniad i wahanu'n glir rhwng y mathau o beiriannau er mwyn i bobl dan 18 oed beidio â chael mynediad atynt.

8.1.23 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y polisiau a'r weithdrefn a gynigiwyd gan yr ymgeisydd i ddiogelu plant a phobl ifanc wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau Safle Canolfan Adloniant i Deuluoedd.

- 8.1.24 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cysylltu amodau gorfodol â phob trwydded Safle Canolfan Adloniant i Deuluoedd.

8.2 RHYBUDDION

RHYBUDDION DEFNYDD DROS DRO

- 8.2.1 Mae rhybuddion defnydd dros dro'n caniatáu'r defnydd o safleoedd ar gyfer gamblo lle nad oes trwydded safle ond lle mae gweithredwr gamblo'n defnyddio'r safle dros dro i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gamblo. Mae safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer rhybudd defnydd dros dro, yn unol â'r Comisiwn Gamblo, yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.
- 8.2.2 Gall yr awdurdod trwyddedu ond caniatáu rhybudd defnydd dros dro i rywun neu gwmni sy'n dal trwydded weithredu berthnasol, h.y. trwydded weithredu casino heb fod yn anghysbell.
- 8.2.3 Ceir nifer o gyfyngiadau statudol mewn perthynas â rhybuddion dros dro.

8.2.4 Wrth ystyried ydy lle yn cyd-fynd â'r diffiniad "set o safleoedd", bydd yr awdurdod trwyddedu'n edrych ar berchnogaeth/meddiannaeth a rheolaeth y safle, ymhlith pethau eraill.

8.2.5 Disgwylia'r awdurdod trwyddedu hwn wrthwynebu rhybuddion lle mae'n ymddangos y byddai eu heffaith yn caniatáu gamblo rheolaidd mewn man y gellid ei ddisgrifio fel un set o safleoedd, fel yr argymhellir yng nghanllawiau'r comisiwn gamblo i awdurdodau trwyddedu.

HYSBYSIADAU DEFNYDD ACHLYSUROL

- 8.2.6 Ychydig ddisgresiwn sydd gan yr awdurdod trwyddedu mewn perthynas â'r hysbysiadaun hyn ar wahân i sicrhau nad eir dros y cyfyngiad statudol o 8 diwrnod mewn blwyddyn galendr. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried diffiniad 'trac' ac a ganiateir yr ymgeisydd i achub cyfle ar y rhybudd.

8.3 HAWLENNI

- 8.3.1 Dyluniwyd hawlenni fel ymagwedd cyffyrddiad ysgafn tuag at gamblo ategol lefel isel. Mae'r hawlenni'n rheoleiddio gamblo a'r defnydd o beiriannau hapchwarae mewn safleoedd penodol.
- 8.3.2 Mae'r awdurdod trwyddedu'n gyfrifol am gyhoeddi
- Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Canolfannau Adloniant i Deuluoedd;
 - Hawlenni Hapchwarae Clybiau a Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Clybiau;
 - Hawlenni Peiriannau Hapchwarae safleoedd trwyddedig i werthu alcohol;
 - Hawlenni Hapchwarae am Wobrau.
- 8.3.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n caniatáu neu'n gwrthod cais am drwydded. **Ni ellir cysylltu amodau gyda thrwydded.**
- 8.3.4 Yn ogystal, mae'r awdurdod trwyddedu'n gyfrifol am dderbyn rhybudd gan ddeiliad y trwyddedau alcohol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 eu bod yn bwriadu ymarfer eu hawl awtomatig i 2 beiriant hapchwarae yn eu safle.
- 8.3.5 Gweler **Atodiad D** i gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r categorïau peiriannau hapchwarae a ganiateir gan yr hawlen a gwybodaeth mewn perthynas â'r arian betio a chyfyngiadau'r gwobrau.

8.3.6 Wrth benderfynu ar y ceisiadau am hawlenni, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried unrhyw gollfarnau sydd gan yr ymgeisydd a fyddai'n eu gwneud nhw'n anaddas i weithredu'r safle yn ogystal ag addasrwydd y safle mewn perthynas â'u lleoliad a materion yn ymwneud ag anhrefn.

HAWLEN PEIRIANT HAPCHWARAE CANOLFANNAU ADLONIAINT I DEULUOEDD

- 8.3.7 Gall Canolfannau Adloniant i Deuluoedd didrwydded gynnig peiriannau categori D yn unig ar hawlen peiriannau hapchwarae. Mae modd i unrhyw nifer o beiriannau categori D fod ar gael.
- 8.3.8 Gellir ond gwneud cais am hawlen gan rywun sy'n meddiannu neu'n bwriadu meddiannu'r safle i'w ddefnyddio fel Canolfan Adloniant i Deuluoedd ddidrwydded ac, os mai unigolyn yw'r ymgeisydd, bod yr unigolyn hwnnw dros 18 oed.
- 8.3.9 Gallai'r hawlen gael ei ganiatáu dim ond os ydy'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant i Deuluoedd ddidrwydded, ac os ymgynghorwyd â phrif swyddog yr heddlu ar y cais.

8.3.10 Nid oes ffurflen gais ragnodedig ar gyfer yr hawlen hon ond mae'r awdurdod trwyddedu wedi creu **ffurflen gais leol** at y diben hwn. Rhaid cyflwyno cynllun ar gyfer y Ganolfan Adloniant i Deuluoedd ddidrwydded gyda phob cais.

HAWLENNI HAPCHWARAE CLYBIAU A HAWLENNI PEIRIANNAU HAPCHWARAE CLYBIAU

- 8.3.11 Gallai'r awdurdod trwyddedu roi hawlenni hapchwarae clybiau i glybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr (ond nid clybiau masnachol) sy'n awdurdodi ar gyfer darparu peiriannau hapchwarae, hapchwarae cyfle cyfartal a gemau chwarae siawns fel y rhagnodwyd yn y rheoliadau.
- 8.3.12 Os nad yw sefydliad lles clwb aelodau neu lowyr yn dymuno cael yr ystod lawn o gyfleusterau a ganiateir gan hawlen hapchwarae clybiau, gallent wneud cais am hawlen peiriant hapchwarae clybiau gan ddefnyddio'r ffurflen ragnodedig.
- 8.3.13 Mae'n ofynnol i ddeiliaid hawlenni hapchwarae clybiau a hawlenni peiriannau hapchwarae clybiau gydymffurfio â'r cod ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ar leoliad a gweithrediad y peiriannau.

HAWLENNI PEIRIANNAU HAPCHWARAE SAFLEOEDD TRWYDDEDIG I WERTHU ALCOHOL

- 8.3.14 Gallai'r awdurdod trwyddedu gyhoeddi hawlen peiriannau hapchwarae i ddeiliaid trwyddedau alcohol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 sy'n rhoi caniatâd i nifer o beiriannau Categori C neu D mewn safle trwyddedig.
- 8.3.15 Rhaid i'r cais gael ei wneud gan yr unigolyn sy'n dal y drwydded safle alcohol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003.
- 8.3.16 Gallai'r awdurdod trwyddedu amrywio nifer a chategori'r peiriannau hapchwarae a awdurdodir gan yr hawlen os ydyw'n ystyried fod ei angen i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- 8.3.17 Mae'n ofynnol i ddeiliaid hawlenni peiriannau hapchwarae safleoedd trwyddedig gydymffurfio â'r cod ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ar leoliad a gweithrediad y peiriannau.

8.3.18 Nid oes ffurflen ragnodedig am yr hawlen hon ond mae'r awdurdod trwyddedu wedi creu **ffurflen gais leol** at y diben hwn.

HAWLENNI HAPCHWARAE AM WOBRAU

- 8.3.19 Gallai'r awdurdod trwyddedu gyhoeddi hawlenni hapchwarae am wobrau i awdurdodi ar gyfer darparu cyfleusterau hapchwarae gyda gwobrau mewn safleoedd penodol.
- 8.3.20 Rhaid i'r cais gael ei wneud gan rywun sy'n meddiannu neu'n bwriadu meddiannu'r safle ac os mai unigolyn yw'r ymgeisydd, rhaid iddo fod yn 18 oed neu'n hŷn.
- 8.3.21 Gofynnir i ymgeiswyr osod yn eu cais y mathau o hapchwarae maen nhw'n bwriadu'u cynnig.

8.3.22 Nid oes ffurflen ragnodedig am yr hawlen hon ond mae'r awdurdod trwyddedu wedi creu **ffurflen gais leol** at y diben hwn.

8.4 COFRESTRYADAU

8.4.1 Mae'r Ddeddf yn dynodi mai 'awdurdodau lleol' sy'n gyfrifol am gofrestru cymdeithasau i redeg **Loterïau Cymdeithasau Bach**, yn hytrach nag awdurdodau trwyddedu. Er lles cysondeb, cyfeirir at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdod lleol a ddiffinnir dan Adran 25 y Ddeddf fel yr awdurdod trwyddedu yn y ddogfen hon.

8.4.2 Rhaid i'r ceisiadau am gofrestrriadau loteri cymdeithas fach fod ar ffurf a ragnodwyd a chael ffi gofrestru angenrheidiol a'r holl ddogfennau angenrheidiol y gofynnodd yr awdurdod trwyddedu amdanynt.

8.4.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n gofyn i ymgeiswyr ddarparu copi o'u hamodau a thelerau a'u cyfansoddiad i gadarnhau eu bod yn gymdeithas anfasnachol.

8.5 ASESIAU RISG LLEOL

- 8.5.1 Mae **'Amodau'r Drwydded a Chodau Ymarfer'** y Comisiwn Gamblo'n ffurfioli'r angen i weithredwyr ystyried y risgiau lleol.
- 8.5.2 Mae cod 10.1.1 y Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn gofyn i'r holl drwyddedigion safleoedd asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a gyflwynwyd gan y ddarpariaeth cyfleusterau gamblo ym mhob un o'u safleoedd, ac mae ganddynt bolisiau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny. Wrth ymgymryd ag asesiad risg, rhaid i'r deiliaid trwyddedau ystyried y materion a ddynodwyd yn y datganiad polisi hwn.
- 8.5.3 Rhaid ymgymryd ag asesiad risg lleol wrth wneud cais am drwydded safle newydd a rhaid ei ddiweddaru
- Wrth wneud cais i amrywio trwydded safle;
 - I ystyried unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn risgiau lleol;
 - Pan fydd newidiadau arwyddocaol mewn safleoedd deiliaid trwyddedau a allai effeithio ar eu dulliau o liniaru'r risgiau lleol.
- 8.5.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i bob asesiad risg gwmpasu'r penawdau bras canlynol:
- Cyfeiriad at unrhyw risgiau lleol penodol
 - Sut mae'r gweithredwr yn bwriadu lliniaru'r risgiau hyn
 - Sut bydd y gweithredwr yn monitro'r risgiau
- 8.5.5 Mae'r **risgiau lleol** a ddynodwyd gan yr awdurdod trwyddedu'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Agosrwydd y safle at sefydliadau sensitif megis ysgolion, canolfannau i oedolion diamddiffyn, neu i ardaloedd preswyl gyda chrynodiad uchel o deuluoedd gyda phlant.
 - Natur y gweithgareddau gamblo a chategori'r peiriannau hapchwarae sydd ar gael yn y safle.
 - Unrhyw gyfyngiadau oedran a gofynion gwahanu yn y safle y mae eu hangen i ddiogelu plant a phobl ifanc.
 - Nifer y bobl ddiamddiffyn yn ardal y safle.
- 8.5.6 **Proffil Ardal Leol o Gonwy**, h.y. mae asesiad o brif nodweddion yr ardal wedi'i baratoi gan yr awdurdod trwyddedu ac mae ar gael fel **Atodiad A**.
- 8.5.7 Er nad oes gofyniad statudol ar awdurdodau trwyddedu i baratoi proffil ardal leol, fe'i paratowyd er mwyn i weithredwyr gael gwell ymwybyddiaeth o Gonwy a'i risgiau.
- 8.5.8 Mae'r awdurdod trwyddedu'n annog yr holl weithredwyr i ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ym 'Mhroffil Ardal Leol Conwy' wrth baratoi eu hasesiadau risg lleol.

9. Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig

- 9.0.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymchwilio i gwynion yn erbyn safleoedd trwyddedig mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Yn yr achos cyntaf, anogir achwynwyr i godi'r gŵyn yn uniongyrchol gyda'r daliwr trwydded neu'r busnes dan sylw i geisio cael penderfyniad lleol.
- 9.0.2 Lle mae parti cyfrannog wedi gwneud cwyn am safle trwyddedig, neu i gais dilys am drwydded gael ei adolygu, gallai'r Cyngor argymhell cyfarfod cymodi i ddechrau er mwyn mynd i'r afael â'r materion pryder a'u hegluro.
- 9.0.3 Ni fydd y broses hon yn sarnu hawl unrhyw barti cyfrannog neu i unrhyw ddeiliad trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.
- 9.0.4 Bydd ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i bob cwyn oni cânt eu hystyried yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus.

10. Gwybodaeth Bellach

10.1 PEIRIANNAU HAPCHWARAE

- 10.1.1 Noda'r awdurdod trwyddedu bod y term "Peiriant Hapchwarae" yn cwmpasu pob peiriant y gall pobl gamblo arno ac mae'r term wedi'i gadw yn y Ddeddf oherwydd ei fod yn un a ddeallir yn hawdd.
- 10.1.2 Mae diffiniad "peiriannau hapchwarae" yn ehangach yn Neddf Gamblo 2005 na'r rhai mewn deddfwriaeth hapchwarae flaenorol ac mae'n cwmpasu pob math o weithgareddau gamblo a all ddigwydd ar beiriant, gan gynnwys betio ar ddigwyddiadau rhithwir.
- 10.1.3 Fodd bynnag, dylid nodi bod gwahaniaeth o hyd rhwng peiriannau sgiliau a pheiriannau hapchwarae ac felly erys eithriadau pwysig ar gyfer offer penodol nad ydynt yn cael eu hystyried yn beiriant hapchwarae, hyd yn oed pan ellir gamblo arno, er enghraifft cyfrifiadur personol yn y cartref.
- 10.1.4 Er mwyn i safle gadw peiriannau hapchwarae, fel rheol mae angen cael awdurdodiad. Yn nodweddiadol mae hyn yn golygu
- Trwydded weithredu gan y Comisiwn a thrwydded safle gamblo gan yr awdurdod trwyddedu;
 - Trwydded safle alcohol; neu
 - Hawlen peiriant hapchwarae.
- 10.1.5 Lle mae'r awdurdod gweithredu'n poeni ynghylch gwneuthuriad, cyflenwi, gosod, cynnal a chadw neu atgyweirio peiriannau hapchwarae, neu'r ffordd maen nhw'n gweithredu, bydd yn cysylltu â'r Comisiwn am arweiniad.
- 10.1.6 Mae'r rheoliadau'n diffinio pedwar categori o beiriant hapchwarae: categorïau A, B, C a D lle rhennir categori B yn bum is-gategori pellach. Mae uchafswm nifer y peiriannau a ganiateir yn amrywio yn unol â'r math o safle.
- 10.1.7 Nid oes isafswm oedran i chwaraewyr peiriannau hapchwarae Categori D ond rhaid i chwaraewyr peiriannau hapchwarae categori A, B ac C fod yn 18 oed neu'n hŷn.
- 10.1.8 Gweler **Atodiad D** am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chategoriâu peiriannau a hawliau.

10.2 Y GOFRESTR DRWYDDEDU

- 10.2.1 Dan y Ddeddf, mae angen i bob awdurdod trwyddedu gadw **cofrestr drwyddedu** sy'n cynnwys
- cofnod o bob trwydded safle, tystysgrif safle clybiau a thrwydded bersonol a gyhoeddwyd ganddo,
 - cofnod o bob rhybudd digwyddiad dros dro a dderbynnir ganddo,
 - cofnod o bob cais arall a wnaed iddo, rhybuddion a roddwyd iddo ac unrhyw wrth-rybudd a roddwyd ganddo, a
 - gwybodaeth arall a allai gael ei rhagnodi gan reoliadau.
- 10.2 Bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr drwyddedu ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn ystod oriau swyddfa, yn rhad ac am ddim, a gallai copi o'r wybodaeth honno gael ei chyflenwi ar gais (am ffi).
- 10.3 Mae crynodeb o'r wybodaeth yn y gofrestr drwyddedu ar gael i edrych arno ar-lein yn **www.conwy.gov.uk**.

- 10.4 Dylai unrhyw un sy'n dymuno edrych ar y gofrestr drwyddedu mewn person gysylltu â'r awdurdod trwyddedu trwy anfon e-bost at **TRWYDDEDU@CONWY.GOV.UK** neu dros y ffôn ar 01492 576626 i drefnu apwyntiad.
- 12.5 Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn y gofrestr yn cael ei chyflwyno mewn fformat priodol, bydd unrhyw un sy'n dymuno edrych ar y gofrestr yn bersonol yn cael ei ofyn i egluro pa ran o'r gofrestr y dymunant iddi fod ar gael yn ystod yr apwyntiad.

10.3 CRONFA DDATA O GOFNODION SAFLEOEDD

- 10.3.1 Mae cronfa ddata o drwyddedau safle ar gael ar wefan y Comisiwn ac mae'n cynnwys gwybodaeth a gyflwynwyd gan yr awdurdodau trwyddedu. Cyfeiriad gwefan y Comisiwn yw **www.gamblingcommission.gov.uk**

Atodiad A: Proffil Ardal Leol o Gonwy

CYFLWYNIAD

Pwrpas y **Proffil Ardal Leol o Gonwy** yw rhoi asesiad o brif nodweddion y sir er mwyn i weithredwyr safleoedd gamblo trwyddedig allu cael gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o Gonwy a'i risgiau.

Er nad oes gofyniad statudol ar awdurdodau trwyddedu i baratoi proffil ardal leol, y gobaith yw y bydd y wybodaeth a ddarperir yn cynorthwyo gweithredwyr wrth baratoi eu hasesiadau risg lleol ar gyfer safleoedd gamblo trwyddedig.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi asesiad o:

- Nodweddion Ardal Conwy;
- Nodweddion Iaith Conwy;
- Safleoedd Gamblo Trwyddedig yng Nghonwy;
- Y Sefydliadau Sensitif yng Nghonwy; a
- Chyffredinolrwydd Pobl Ddiamddiffyn yng Nghonwy.

NODWEDDION YR ARDAL

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn man canolog yng Ngogledd Cymru. Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o ryw 113,000 hectar a phoblogaeth o 116,300 o drigolion (amcangyfrif poblogaeth ganol y flwyddyn 2014). Mae rhyw 38% o'i arwynebedd a 4% o'i boblogaeth o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Bwrdeistref Sirol Conwy'n ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywodlyd a phentiroedd helaeth i ddyffrynnoedd cysgodol, rhostiroedd agored a mynyddoedd garw. Nid yw'n syndod bod ei economi'n dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth.

Dibynna'r ardaloedd gwledig a'u cymunedau ar weithgareddau amaethyddol a choedwigaeth, er nad yw'r sectorau hyn yn darparu lefel uchel o gyflogaeth uniongyrchol. Mae'r llain arfordirol gul yn cynnwys dros 85% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol a Llandudno a Bae Colwyn yw'r ddau brif anheddiad o ran niferoedd y boblogaeth. Mae Conwy Wledig yn ardal ddeniadol, amaethyddol gan mwyaf gyda chyflogaeth amgen gyfyngedig ac ychydig bwysau o ran datblygu.

Mae ei phoblogaeth yn wasgaredig iawn a Chymraeg yw ei iaith amlycaf. Y prif anheddiad o ran niferoedd y boblogaeth yw tref farchnad Llanrwst.

Ymhlith y trefi strategol allweddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy mae:

Llandudno – cyrchfan gwyliau mawr a hefyd canolfan siopa a diwylliannol rhanbarthol sy'n denu miliwn o ymwelwyr y flwyddyn.

Bae Colwyn – mae wedi gweld dirywiad sylweddol fel cyrchfan wyliau ers y 1950au, ond mae'n flaenoriaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru i'w hadfywio ac mae wedi cael buddsoddiad sylweddol dan fenter Bywyd y Bae.

Cyffordd Llandudno - fe'i dynodwyd gan Lywodraeth Cymru fel canolfan strategol allweddol yng Ngogledd Cymru, gan gysylltu'r Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin ac mae hefyd yn ymddwyn fel canolfan adwerthu, gwasanaeth a chyflogaeth ar gyfer cefnwlad fawr.

Mae Cyffordd Llandudno hefyd yn gartref i brif swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru.

Llanrwst – tref farchnad a chanolfan wasanaethau allweddol yn Nyffryn Conwy, sy'n cefnogi cynaliadwyedd cymunedau gwledig.

Abergele - Tref farchnad draddodiadol yn ei hanfod ond bellach yn ardal breswyl allweddol yn ymestyn ar draws tir ffermio ac i lawn i'r llain arfordirol ym Mhensarn. Mae'r orsaf drenau yn Abergele/Pensarn yn gwasanaethu swm mawr o dwristiaid sy'n bwrw am y parciau gwyliau yn Nhowyn a Bae Cinmel gerllaw.

Betws-y-coed – yn aml iawn, cyfeirir at Fetws-y-coed, sy'n cyflym ddod yn gartref i weithgareddau awyr agored yn y DU, fel y porth i Eryri. Mae'n gyrchfan gydol y flwyddyn ar gyfer twristiaeth yn Sir Conwy gan gyflogi nifer fawr o'r pentrefi gwledig o'i amgylch.

Tywyn - Y prif weithgaredd economaidd yn Nhowyn yw twristiaeth, sy'n brysurach yn nhymor yr haf. Cynigia'r cymysgedd o barciau gwyliau, carafannau sefydlog a lleiniau carafannau teithiol lety i filoedd o ymwelwyr sy'n cyrraedd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'n gartref hefyd i'r unig drac betio trwyddedig (Tir Prince) yng Ngogledd Cymru.

Conwy – Mae Tref Conwy'n safle treftadaeth byd UNESCO gyda chastell a muriau mawreddog o'r drydedd ganrif ar ddeg. Gwna harbwr gwaith Conwy, pont grog chwyldroadol Telford, ei agosrwydd at gyrchfan glan môr mwyaf poblogaidd Cymru, Llandudno a mynyddoedd godidog Eryri Gonwy yn un o'r cyrchfannau twristiaid gorau yn y byd.

Y prif ffyrdd o fynd i Fwrdeistref Sirol Conwy, oddi yno ac o'u mewn yw ffordd arfordirol yr A55 (Euroroute E22), y rheilffordd gyflin o Fanceinion a Llundain i Gaerdybi, a ffordd yr A5 i'r de. Cynigia'r A470 ffordd gyswllt o'r gogledd i'r de sy'n gyfochrog â rheilffordd sy'n cysylltu Cyffordd Llandudno â Blaenau Ffestiniog.

NODWEDDION IAITH

Hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig:

Amcangyfrifa Cyfrifiad 2011 fod 30,600 o bobl 3 oed neu'n hŷn ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n medru'r Gymraeg. Mae hyn yn 27.4% o'r boblogaeth. Dim ond 19% o boblogaeth Cymru gyfan sy'n medru siarad Cymraeg. Ganed ychydig dros hanner poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yng Nghymru (54%), sydd i gyfrif yn rhannol am y gyfran is yn y boblogaeth sy'n medru siarad Cymraeg o gymharu ag ardaloedd cyfagos y Gorllewin (mae 65% o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd).

At ei gilydd, mae mynychder y siaradwyr Cymraeg a'r rhai a aned yng Nghymru'n cynyddu tuag at y gorllewin, ac wrth deithio i mewn i'r tir. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei anterth yn ward ddeheuol wledig Uwchaled (71% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yng nghymuned arfordirol ddwyreiniol Tywyn a Bae Cinmel (llai na 12%).

Ym mlwyddyn ysgol 2014/15, safodd 21.5% o ddisgyblion ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 2 ac 19.4% o ddisgyblion ysgol yng Nghyfnod Allweddol 3 eu harholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 40% o ysgolion cynradd a 28% o ysgolion uwchradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2014/15, roedd 78.2% o ddisgyblion yn dilyn cwrs Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 ac 80.5% yng Nghyfnod Allweddol 3.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru ("Iaith Fyw: Iaith Byw").


Eu nod yw cyflawni:

- A. Cynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad yr iaith ac sy'n ei defnyddio
- B. Cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- C. Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgil defnyddiol mewn bywyd modern.
- D. Cyfeirio mentrau ar hyd a lled Cymru i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.


SAFLEOEDD GAMBLO TRWYDDEDIG YNG NGHONWY

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n rheoleiddio'r gweithgareddau gamblo mewn 254 o safleoedd. O'r cyfanswm hwn, mae gan 30 ohonynt drwydded safle ar gyfer gamblo ac awdurdodir 224 o safleoedd i ganiatáu gamblo trwy hawlen.

Ffigur 1 – Crynodeb o'r 36 Trwydded Safle Gamblo yng Nghonwy



Ffigur 2 – Crynodeb o'r 192 o Hawlenni Gamblo yng Nghonwy



Mae mwyafrif y safleoedd gamblo wedi'u clystru yn ardaloedd dwysach eu poblogaeth y sir ac ym mhrif ardaloedd twristaidd, arfordirol y sir.

Adlewyrchir hyn yn nifer y Canolfannau Adloniant i Deuluoedd a Chanolfannau Hapchwarae i Oedolion ar draws ardaloedd arfordirol, twristaidd y sir.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Conwy'n rheoleiddio'r gweithgareddau gamblo mewn 228 o safleoedd. O'r cyfanswm hwn, mae gan 36 ohonynt drwydded safle ar gyfer gamblo ac awdurdodir 192 o safleoedd i ganiatáu gamblo.

SEFYDLIADAU SENSITIF YNG NGHONWY

Mae agosrwydd safleoedd gamblo at sefydliadau sensitif fel ysgolion, canolfannau i oedolion diamddiffyn, neu at ardaloedd preswyl gyda chrynodiad uchel o deuluoedd gyda phlant yn ffactor y dylid ei hystyried gan weithredwyr wrth ymgymryd â'u hasesiadau risg lleol.

Ysgolion Uwchradd

Ardal	Ysgol	Grŵp Oedran
Abergele	Ysgol Emrys ap Iwan Faenol Avenue, Abergele	(11-18)
Conwy	Ysgol Aberconwy Morfa Drive, Conwy	(11 - 18)
Bae Colwyn	Ysgol Eirias Eirias Road, Bae Colwyn	(11 - 18)
Llandudno	Ysgol John Bright Maesdu Road, Llandudno	(11 - 18)
Llanrwst	Ysgol Dyffryn Conwy Ffordd Nebo	(11 - 18)
Hen Golwyn	Ysgol Bryn Elian Windsor Drive, Hen Golwyn	(11 - 18)
Bae Penrhyn	Ysgol y Creuddyn Bae Penrhyn	(11 - 18)

Unedau Cyfeirio'r Gwasanaeth Cynhwysiant Cymdeithasol

Ardal	Uned	Grŵp Oedran
Abergele	Canolfan Addysg Nant y Bryniau Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru Safle Ysbyty Abergele Llanfair Road Abergele	(11-16)
Bae Colwyn	Canolfan Addysg Penrhos Avenue Penrhos Avenue Bae Colwyn	(5-16)
Llandudno	Canolfan Addysg Yr Wyddfifd Llwynon Road Llandudno	(14-16)

Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ardal	Uned	Grŵp Oedran
Llandudno	Ysgol y Gogarth Ffordd Nant y Gamar Craig y Don Llandudno	(2-19)

Cyffredinolrwydd Pobl Ddiamddiffyn yng Nghonwy

Un o amcanion Deddf Gamblo 2005 yw diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy gamblo.

Mae'n anghyfreithlon i weithredwyr ganiatáu plant a phobl ifanc dan 18 oed i chwarae rhai gemau wedi'u cyfyngu i oedran, betio na chael mynediad i gasinos, safleoedd betio, canolfannau hapchwarae i oedolion, ac ardaloedd cyfyngedig i oedran mewn Bingos, Traciau a Chanolfannau Adloniant i Deuluoedd.

Cyfeiria'r Comisiwn Gamblo at bobl ddiamddiffyn fel pobl a allai gamblo mwy nag y maen nhw eisiau gwneud; pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w hincwm; a phobl sydd hwyrach yn methu gwneud penderfyniadau deallus na chytbwys ynghylch gamblo oherwydd anghenion iechyd meddwl, anabledd dysgu neu gamddefnyddio sylweddau'n ymwneud ag alcohol neu gyffuriau.

DADANSODDIAD O'R BOBLOGAETH

Amcangyfrifwyd bod maint y boblogaeth breswyl ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar 30 Mehefin 2015 yn 116,200 o bobl. Rhwng canol 2014 a chanol 2015, amcangyfrifwyd bod cyfanswm nifer y bobl yn byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi gostwng gan ryw -50 neu -0.06%.

Er 2005, cynyddodd poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy gan 3,850, sef 3.4% - cyfartaledd o ryw 0.3% y flwyddyn, ond nid yw'r cyfraddau newid wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws y cyfnod. Yn yr un cyfnod, cynyddodd poblogaeth Cymru gan 4.4% a thyfodd poblogaeth y DU gan 7.8%.

Rhwng canol 2014 a chanol 2015, roedd y newid ym mhoblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy o ganlyniad i:

- o newid naturiol negyddol o -500 o bobl (1,100 o enedigaethau a 1,600 o farwolaethau);
- o cynnydd net mewn mudo o 400 o bobl (daeth rhyw 4,950 o bobl i Fwrdeistref Sirol Conwy i fyw a gadawodd rhyw 4,550 o bobl).

- At ei gilydd, mae cyfraddau genedigaethau a marwolaethau yn gostwng.
- Fodd bynnag, heb fudo, byddai poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy'n gostwng gan fod mwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal bob blwyddyn.
- Dros gyfnod o ddeng mlynedd, ceir cyfartaledd allfudo net o ryw -300 yn y grŵp oedran 15-29 oed bob blwyddyn.
- Ceir cyfartaledd mewnfudo net o ryw +300 yn y grŵp oedran 50-64 bob blwyddyn.
- Oedran canolrifol poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yw 48 oed (Cymru = 42; y DU = 40). Mae'r oedran canolrifol wedi cynyddu o 45 i 48 oed dros y degawd diwethaf.
- Mae 26.6% o'r boblogaeth 65 oed a hŷn Bwrdeistref Sirol Conwy yn cymharu â 20.2% yng Nghymru gyfan ac 17.8% ar draws y DU.
- Erbyn 2035, rhagwelir:
 - os bydd y duedd fudo 5 mlynedd yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 115,500 – gostyngiad o -700 (-0.6%) o lefelau amcangyfrif canol blwyddyn 2015.
 - os bydd y duedd fudo 10 mlynedd yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 120,550 – cynnydd o 4,350 (3.7%) o lefelau amcangyfrif canol blwyddyn 2015.
 - bydd cyfanswm y codiadau net yn y boblogaeth yn dod o fewnfudo, oherwydd byddai newid naturiol ar ei ben ei hun (genedigaethau a marwolaethau) yn arwain at gwmp yn y cyfanswm.
 - bydd twf yn y boblogaeth grŵp oedran 65+. Bydd nifer y bobl oed gweithio a'r boblogaeth dan 18 oed yn dirywio.
- Mae dwysedd y boblogaeth yn isel, ar 1.0 unigolyn fesul hectar ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan, ond yn codi i dros 20 unigolyn fesul hectar mewn rhai ardaloedd trefol ar yr arfordir.
- Mae'r crynodiadau mwyaf o bobl 65 oed a hŷn yn aneddiadau arfordirol Abergele, Llandrillo-yn-Rhos, Llandudno (wardiau Craig-y-Don a Phenrhyn) a Deganwy. Mae gan ranbarth etholiadol Craig-y-Don y gyfran uchaf o bobl dros 65 oed yn ei boblogaeth (37.4%).

- Mae'r proffil oedran ieuengaf o bell ffordd yn y Fwrdeistref Sirol i'w chanfod yn rhanbarth etholiadol/ardal cyngor cymuned Llysfaen, gyda dim ond 12.5% o'r boblogaeth 65+ oed, a 24.5% o dan 16 oed.

Atodiad B: Geirfa

Canolfan Hapchwarae i Oedolion: safle gamblo trwyddedig a all ddarparu peiriannau hapchwarae. Dim ond oedolion (pobl 18 oed neu'n hŷn) all fynd i mewn i Ganolfan Hapchwarae i Oedolion.

Safle betio: safleoedd gamblo trwyddedig a all ddarparu cyfleusterau betio a pheiriannau hapchwarae. Dim ond oedolion (pobl 18 oed neu'n hŷn) all fynd i mewn i Safleoedd Betio oni fod y safle ar drac.

Bingo: mae dau fath o fingo

Bingo Trosiant Uchel – Bingo lle mae'r cyfanswm arian betio a gwobrau mewn unrhyw gyfnod o saith niwrnod yn fwy na £2000. Gall bingo trosiant uchel ddigwydd mewn casinos a neuaddau bingo mawr yn unig.

Bingo Trosiant Isel - (fe'i disgrifir weithiau fel bingo trosiant heb fod yn uchel). Bingo lle mae cyfanswm yr arian betio a'r gwobrau mewn unrhyw gyfnod o 7 niwrnod yn llai na £2000. Gall bingo trosiant isel ddigwydd mewn tafarndai a chlybiau, ac mewn safleoedd sydd â Hawlen Hapchwarae am Wobrau neu Hawlen Peiriant Hapchwarae'r Ganolfan Adloniant i Deuluoedd.

Safle Bingo: safleoedd gamblo trwyddedig a all ddarparu bingo trosiant uchel a pheiriannau hapchwarae.

Casino: gall 3 math o gasino fodoli yng Nghymru a Lloegr: mawr, bach neu "fychan" (casinos a fodolai dan yr hen gyfraith ac sydd wedi cadw'u trwyddedau dan y gyfraith newydd). Seilir y gwahaniaethau ar faint cyffredinol a nifer y peiriannau a'r byrddau hapchwarae y gellir eu darparu. Gall casinos ddarparu gemau casino (gemau nad ydynt yn gemau cyfle cyfartal ac a allai olygu chwarae yn erbyn banc) a bingo yn ogystal â pheiriannau hapchwarae.

Plentyn: At ddibenion Deddf Gamblo 2005, unrhyw un o dan 16 oed.

Clwb: mae Deddf 2005 yn cydnabod 2 fath o glwb: **clybiau aelodau** (25 aelod o leiaf ac a sefydlwyd at ddibenion ar wahân i hapchwarae oni bai mai clwb bridge neu chwist ydyw, gan gynnwys Sefydliadau Lles Glowyr); a **chlybiau masnachol**. Gall gemau cyfle cyfartal ddigwydd heb unrhyw drwydded bellach ar yr amod nad eir dros y cyfyngiadau ar yr arian betio a gwobrau. Yn ogystal, gall bingo trosiant isel ddigwydd ac os mai clwb bridge neu chwist ydyw yna gellir chwarae bridge neu chwist.

Hawlen Hapchwarae Clybiau: hawlen i alluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (tri pheiriant Categoriâu B3A, B4, C neu D), hapchwarae cyfle cyfartal a gemau chwarae siawns (wedi'u cyfyngu i bontŵn a chemin de fer).

Hawlen Peiriannau Clybiau: hawlen i alluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (tri pheiriant Categoriâu B3A, B4, C neu D).

Amodau: mae dau fath o amod

1. **Amodau Diodyn** – fe'u rhagnodir mewn rheoliadau a byddant yn gysylltiedig â phob dosbarth o drwydded safle, oni y cânt eu heithrio gan yr awdurdod trwyddedu.
2. **Amodau Gorfodol** - amodau yw'r rhain a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mae rhai wedi'u gosod yn y Ddeddf a bydd rhai'n cael eu rhagnodi gan reoliadau) a fydd yn cael eu cysylltu'n awtomatig â math o drwydded safle penodol. Ni fydd gan yr awdurdod trwyddedu unrhyw ddisgresiwn i newid neu godi'r amodau hyn.

Peiriant craen bachu: peiriant gwobr heb fod yn ariannol lle mae pob gwobr y gellir ei hennill yn cynnwys gwrthrych materol unigol (fel tegau wedi'i stwffio) a enillir gan lwyddiant unigolyn i drin a thrafod peiriant i wahanu un gwrthrych materol neu'n fwy wrth un arall.

Hapchwarae Cyfle Cyfartal: gemau nad ydynt yn cynnwys chwarae neu fetio arian yn erbyn banc a lle mae'r cyfleoedd yr un mor ffafriol i bob cyfranogwr.

Gamblo Eithriedig: gall rhywfaint o gamblo lefel isel penodedig ddigwydd mewn safle preifat, gweithleoedd, tafarndai a chlybiau heb unrhyw ofynion am drwyddedu neu gofrestru.

Loterïau eithriedig: gellir rhedeg rhai mathau o loteri heb drwydded gan y Comisiwn Gamblo neu gofrestriad gyda'r awdurdod lleol. Maen nhw'n Loterïau Heb Fod yn Fasnachol Achlysurol, Loterïau Preifat a Loterïau Cwsmeriaid.

Canolfan Adloniant i Deuluoedd: mae 2 fath o Ganolfannau Adloniant i Deuluoedd: trwyddedig a heb fod yn drwyddedig. Yn y ddau achos, gall plant a phobl ifanc fynd i mewn i'r safle gydag oedolion a defnyddio peiriannau categori D. Gall Canolfan Adloniant i Deuluoedd trwyddedig ddarparu peiriannau categori C a D, ond dim ond pobl 18 oed neu'n hŷn all ddefnyddio'r peiriannau categori C. Gall Canolfan Adloniant i Deuluoedd Ddi-drwydded ddarparu peiriannau categori D yn unig.

Betio Ods Sefydlog: os gall y gamblwr ddarganfod beth fydd yr elw ar fet o'i osod, (ac nad 'hapchwarae' yw'r gweithgaredd), yna mae'n debygol o fod yn fetio yn ôl ods sefydlog.

Terfynellau Betio Ods Sefydlog (Terfynellau Betio): Math o beiriannau hapchwarae yw terfynellau betio sy'n ymddangos fel arfer mewn siopau betio trwyddedig. Mae gan derfynellau betio arddangosiadau 'sgrin gyffwrdd' ac maen nhw'n edrych yn debyg i beiriannau cwis sy'n gyfarwydd mewn tafarndai a chlybiau. Fel rheol, cynigiant nifer o gemau, roulette yw'n un mwyaf poblogaidd.

Hapchwarae: chwarae gêm siawns am wobr. Mae hyn yn cynnwys gemau siawns gwirioneddol (neu lwc), gemau sydd ag elfen o sgil a siawns wedi'u cyfuno, a gemau lle gall "sgil ardderchog" ddileu'r elfen o siawns. Caiff chwaraeon eu heithrio o ddiffiniad Gemau Chwarae Siawns.

Peiriant Hapchwarae: peiriant a ddefnyddir i gamblo. Fe'u rhennir yn 8 categori, (A, B1, B2, B3A, B3, B4, C a D) yn dibynnu ar yr uchafswm arian betio a'r uchafswm gwobrau. Gellir defnyddio gwahanol gategoriâu o beiriannau mewn gwahanol fathau o safleoedd gamblo trwyddedig ac o dan wahanol hawlenni.

Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

Loteri anfasnachol achlysurol: gweler Loteriau Eithriedig uchod.

Loteri Fawr: lle mae cyfanswm gwerth y tocynnau mewn unrhyw loteri'n fwy nag £20,000 neu'n £250,000 mewn loteriau ar wahân dros un flwyddyn galendr. Mae'r math hwn o loteri'n gofyn am Drwydded Weithredu gan y Comisiwn Gamblo.

Hawlen Peiriant Hapchwarae Safle Trwyddedig: mae'n caniatáu tafarndai i gael mwy na 2 beiriant hapchwarae, ar yr amod mai prif ddiben y safle yw aros yn dafarn, yn hytrach na Chanolfan Adloniant gyda bar.

Awdurdod trwyddedu: yr ardal, y fwrdeistref neu'r awdurdod unedol sy'n gyfrifol am drwyddedu gamblo a gweithgareddau eraill yn yr ardal.

Amcanion Trwyddedu: mae tri amcan

- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd.
- Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; a
- Diogelu plant a phobl ddi-amddiffyn eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo.

Loteri: mae Deddf 2005 yn cydnabod 2 fath o loteri, loteri syml neu loteri gymhleth. Yn y ddau achos, mae chwaraewyr yn talu i gymryd rhan a chlustnodir gwobrau. Yn achos loteri syml, mae'r dyraniad hwnnw ar hap yn llwyr, ond yn achos loteri gymhleth, gellir cael camau pellach nad ydynt yn dibynnu ar siawns. Caiff rhai loteriau eu heithrio rhag rheoliadau (gweler uchod).

Rhybudd Defnydd Achlysurol: rhybudd a allai gael ei gyhoeddi dim ond mewn perthynas â thrac (gweler isod) sy'n caniatáu betio ar drac heb yr angen am Drwydded Safle.

Hapchwarae am Wobrau: hapchwarae lle nad yw natur a maint y wobr yn cael eu penderfynu gan nifer y chwaraewyr neu'r arian betio e.e. bingo gyda gwobrau heb fod yn ariannol.

Hawlen Hapchwarae am Wobrau: hawlen a gyhoeddir gan yr Awdurdod Trwyddedu sy'n caniatáu i hapchwarae am wobrau ddigwydd.

Tafarn: safle sydd â thrwydded safle dan Ddeddf Trwyddedu 2003 i werthu alcohol i'w yfed ar y safle mewn bar lle gweinir alcohol i gwsmeriaid. Gall tafarndai gael 2 beiriant hapchwarae categori C neu D. Os oes gan dafarn Hawlen Peiriant Hapchwarae Safle Trwyddedig (gweler uchod), gall olygu mwy o beiriannau hapchwarae.

Aseidiadau Risg: y gofyniad dan god Cyfrifoldeb Cymdeithasol 10.1.1 i weithredwyr asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a gyflwynir gan y ddarpariaeth cyfleusterau gamblo yn eu safleoedd a chael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny.

Sylwadau perthnasol: sylwadau a wnaed gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon cyfrannog o fewn y cyfnod rhagnodedig, sy'n ymwneud â hyrwyddo o leiaf un o'r tri amcan trwyddedu, sydd heb eu tynnu'n ôl ac sydd, ym marn yr awdurdod trwyddedu, heb fod yn ddisylwedd neu'n flinderus.

Awdurdod cyfrifol: mae gan gyrff cyhoeddus y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt am geisiadau hawl i wneud sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maen nhw'n cynnwys

- yr awdurdod trwyddedu y mae ardal y safle wedi'i lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol ynddo,
- y Comisiwn Gamblo,
- prif swyddog yr heddlu neu'r prif gwnstabl ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol ynddi,
- yr awdurdod tân ac achub ar gyfer yr un ardal,

- yr awdurdod cynllunio lleol am yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol ynddo.
- yr awdurdod perthnasol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â llygru'r amgylchedd neu niwed i iechyd dynol ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol ynddi,
- corff, a ddynodwyd gan yr awdurdod trwyddedu, sy'n gallu cynghori ynghylch diogelu plant rhag niwed,
- Cyllid a Thollau EM
- Unrhyw un arall a ragnodwyd yn y rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Adolygiad: ar ôl rhoi trwydded safle, gallai awdurdod cyfrifol neu barti cyfrannog ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded oherwydd mater sy'n codi ar y safle mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r tri amcan trwyddedu.

Peiriant Sgiliau gyda Gwobrau: peiriant lle pennir a enillir gwobr ai peidio dim ond yn ôl sgîl y chwaraewr ac lle nad oes elfen o siawns. Nid yw'r rhain wedi'u rheoleiddio.

Loteri Cymdeithas Fach: mae'r rhain ar gyfer cymdeithasau anfasnachol (cymdeithas a sefydlwyd ac a gynhaliwyd at ddibenion elusenol; at y diben o alluogi cyfranogiad mewn, neu i gefnogi athletau chwaraeon neu weithgaredd diwylliannol; neu at unrhyw ddiben anfasnachol arall, ar wahân i fudd preifat) sy'n gorfod cofrestru eu loteriau gyda'r awdurdod lleol.

Rhybudd Defnydd Dros Dro: rhybudd sy'n galluogi mathau cyfyngedig o gamblo i ddigwydd am gyfnod cyfyngedig ar safleoedd sydd heb drwydded safle.

Trac: safle lle mae rasys neu ddigwyddiadau chwaraeon eraill yn digwydd e.e. rasio ceffylau, rasio cŵn, athletau, pêl-droed, rasio moduron ac ati.

Ffair Deithiol: ffair sy'n darparu difyrion 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf' a rhaid iddi fod ar safle a ddefnyddir ar gyfer ffeiriau am ddim mwy na 27 diwrnod fesul blwyddyn galendr. Gall ffeiriau ddarparu hapchwarae am wobrau a pheiriannau hapchwarae categori D.

Unigolyn Ifanc: at ddibenion Deddf Gamblo 2005, unrhyw un nad yw'n blentyn ond sydd o dan 18 oed.

Atodiad C: Dirprwyo Gwneud Penderfyniadau

Mater i ymdrin ag ef	Cyngor Llawn	Is-bwyllgor y pwyllgor trwyddedu	Swyddogion
Cymeradwyaeth derfynol o ddatganiad polisi'r Awdurdod Trwyddedu	X		
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	X		
Gosod ffioedd (pan fo'n briodol)		X (os dirprwyir gan y cyngor llawn)	
Cais am drwydded safle		X Lle mae sylwadau wedi dod i law a heb eu tynnu'n ôl	X Lle na ddaeth sylwadau i law/ tynnwyd sylwadau yn ôl
Cais i amrywio trwydded		X Lle mae sylwadau wedi dod i law a heb eu tynnu'n ôl	X Lle na ddaeth sylwadau i law/ tynnwyd sylwadau yn ôl
Cais i drosglwyddo trwydded		X Lle mae sylwadau wedi dod i law gan y Comisiwn neu awdurdod cyfrifol	X Lle na ddaeth sylwadau i law gan y Comisiwn neu awdurdod cyfrifol
Cais am ddatganiad dros dro		X Lle mae sylwadau wedi dod i law a heb eu tynnu'n ôl	X Lle na ddaeth sylwadau i law/ tynnwyd sylwadau yn ôl
Adolygiad o drwydded safle		X	
Cais am hawlenni hapchwarae mewn clybiau/peiriannau clybiau		X Lle cafwyd gwrthwynebiadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl	X Lle ni chafwyd gwrthwynebiadau/ tynnwyd gwrthwynebiadau yn ôl
Canslo hawlenni hapchwarae mewn clybiau/peiriannau clybiau		X	
Ceisiadau am hawlenni eraill			X

Canslo hawlenni peiriannau hapchwarae mewn safleoedd trwyddedig			X
Ystyried rhybudd defnydd dros dro			X
Penderfyniad i roi gwrthrybudd i rybudd defnydd dros dro		X	

Mae **X** yn dynodi'r lefel isaf y gellir dirprwyo penderfyniadau iddi

Atodiad D: Crynodeb Peiriannau Hapchwarae

CRYNODEB O'R DDARPARIAETH PEIRIANNAU YN ÔL SAFLE

Math o Safle	A	B1	B2	B3	B4	C	D
Casino mawr (cymhareb peiriant/bwrdd o 5-1 hyd at uchafswm)		Uchafswm o 150 o beiriannau Unrhyw gyfuniad o beiriannau categorïau B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn y cyfanswm cyfyngiad o 150 (yn amodol ar y gymhareb peiriant/bwrdd)					
Casino bach (cymhareb peiriant/bwrdd o 2-1 hyd at uchafswm)		Uchafswm o 80 o beiriannau Unrhyw gyfuniad o beiriannau categorïau B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn y cyfanswm cyfyngiad o 80 (yn amodol ar y gymhareb peiriant/bwrdd)					
Casino cyn Deddf 2005 (dim cymhareb peiriant/bwrdd)		Uchafswm o 20 o beiriannau categorïau B i D (ac eithrio peiriannau B3A), neu unrhyw nifer o beiriannau C neu D yn lle hynny					
Safleoedd betio a thraciau a ddefnyddir gan fetio ar ffurf Pyllau			Uchafswm o 4 peiriant categorïau B2 i D (ac eithrio peiriannau B3A)				
Safle bingo				Uchafswm o 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio ar safleoedd categorïau B3 neu B4		Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D	
Canolfan hapchwarae i oedolion				Uchafswm o 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio ar safleoedd categorïau B3 neu B4		Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D	
Canolfan adloniant i deuluoedd trwyddedig						Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D	
Canolfan adloniant i deuluoedd (gyda hawlen)							Dim cyfyngiad ar beiriannau categori D
Clybiau neu sefydliad lles glowyfyr (gyda hawlenni)				Uchafswm o 3 pheiriant yng nghategoriâu B3A neu B4 i D			
Safleoedd trwyddedig i werthu alcohol cymwys						1 neu 2 beiriant categori C neu D awtomatig o roi gwybod	
Safleoedd trwyddedig i werthu alcohol cymwys (gyda hawlen peiriant hapchwarae safleoedd trwyddedig)						Nifer y peiriannau categori C-D fel y penodir ar yr hawlen	
Ffair deithiol							Dim cyfyngiad ar

CRYNODEB O GATEGORIAU A HAWLIAU PEIRIANNAU HAPCHWARAE

Categori peiriant	Uchafswm arian betio	Uchafswm gwobr
A	Digyfyngiad – Ni chaniateir peiriannau hapchwarae categori A ar hyn o bryd	
B1	£5	£10,000*
B2	£100	£500
B3A	£2	£500
B3	£2	£500
B4	£2	£400
C	£1	£100
D – gwobr heb fod yn ariannol	30c	£8
D – gwobr heb fod yn ariannol (peiriannau craen bachu yn unig)	£1	£50
D – gwobr ariannol	10c	£5
D – gwobr ariannol a heb fod yn ariannol wedi ei chyfuno	10c	£8 (lle na all mwy na £5 fod yn wobwr ariannol)
D – gwobr ariannol a heb fod yn ariannol wedi ei chyfuni (peiriannau gwthio darnau arian neu syrthio darnau arian yn unig)	20c	£20 (lle ni all mwy na £10 fod yn arian)